Arts and Humanities Research Council



# Rhaglen Datgloi Diwylliant yn Lleol trwy Fynediad Cynhwysol (LUCIA) – Adroddiad Gweithdy




# Cynnwys

Rhagair .......... 3
Gweithdai 2024 a Negeseuon Allweddol .......... 4
Thematig .......... 5
Gweithredol .......... 7
Beth nesaf? .......... 8
Atodiad A .......... 9

# Rhagair

**gan Dr Jaideep Gupte, Cyfarwyddwr Ymchwil, Strategaeth ac Arloesi, Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC)**

Mae diwylliant yn ysgogydd pwerus ar gyfer adnewyddu trefol ac arloesi. Mae cymunedau trefol yn mynnu 'math newydd o arweinyddiaeth ar gyfer diwylliant' sy'n cael ei ysgogi gan y gymuned, sy'n gydweithredol ac yn fwy cynrychioliadol.[1] Rydym yn cydnabod bod rhwystrau i ffordd gyfunol ymlaen, ac mae cyfuniad gwenwynig o dwf isel ac anghydraddoldeb uchel yn golygu bod y rhai lleiaf cefnog yn cael eu gadael ar ôl.[2] Mae'n amlwg hefyd nad yw mynediad at ddiwylliant yn ein cymunedau yn gyfartal ar draws y DU ac mae creu partneriaethau traws-sector yn heriol, yn enwedig o fewn y sector preifat.[3] Yng nghyd-destun adferiad ôl-bandemig, argyfwng costau byw a phwysau dybryd ar gyllid celfyddydau lleol, mae cysylltu â'n gilydd mewn ffyrdd cynhwysol a phwrpasol yn rhywbeth angenrheidiol. Fel y mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi'i amlygu yn ei hadroddiad Cornerstones of Culture, bod cydweithredu ystyrlon yn allweddol i adeiladu 'cyd-ddealltwriaeth o ddiwylliant a lle' er mwyn sicrhau bod mynediad at ddiwylliant wir ar gyfer pawb.[4]

Mae'r rhaglen Datgloi Diwylliant yn Lleol trwy Fynediad Cynhwysol (LUCIA) yn gyfle i effeithio'n sylweddol ar y rhwystrau hyn a'u chwalu. Bydd y cyllid hwn sy'n canolbwyntio ar rwydweithiau yn grymuso cymunedau i arwain ar fynd i'r afael â mynediad teg a chynhwysol at fannau diwylliannol a thrwy hynny gyfrannu at swyddi a thwf lleol. Mae ffocws cynyddol ar y trefol (dinasoedd, trefi, crynodrefi trefol, a pherthynas drefol-gwledig) yn rhoi man cychwyn ehangach ar gyfer cwestiynau ynglŷn â'r diwylliant y mae cymunedau yn ei werthfawrogi a sut mae pobl yn cael mynediad at amrywiaeth o fannau diwylliannol. Bydd y rhwydweithiau'n creu ac yn meithrin partneriaethau cynaliadwy a mwy graddol sy'n parchu hunaniaethau diwylliannol ac yn hwyluso mynegiant creadigol a chyfunol a sgyrsiau ar draws arfer cymunedol, ymchwil a pholisi. Yn bwysig, bydd gwaith y rhwydweithiau yn ysbrydoli ac yn annog newid cadarnhaol ledled y DU, wrth arddangos polisïau a chynlluniau newydd blaenllaw, gwella galluoedd diwylliannol, a hyrwyddo adferiad ac adnewyddiad ar draws ystod gyfan o ddinasoedd a threfi. Mae awydd eisoes am y math hwn o ddull. Nododd trafodaethau gyda rhanddeiliaid fod 'llawer o gymunedau yn agored iawn i hyrwyddo diwylliant yn eu hardal ac eisiau gwneud hynny – mae awch am ddiwylliant a gall LUCIA sicrhau bod 'allgymorth' yn ganolog i brosesau ariannu yn y maes hwn'. Gobeithiwn fod y buddsoddiad hwn gan UKRI yn edrych i'r dyfodol, gan ddarparu llwybrau ystyrlon i greu economi cyfleoedd cyfartal gyda phwerau datganoledig yn ymwneud ag arweinyddiaeth ddiwylliannol i gymunedau lleol, fel y gallwn ddatgloi potensial trefi a dinasoedd. Credwn fod potensial i LUCIA gyfrannu at ddatblygu dulliau sy'n canolbwyntio ar bobl ar gyfer diwylliant, datblygiad trefol a rhanbarthol a gwreiddio hyn yn niwylliannau ac arferion sefydliadol/polisi.

Mae'r AHRC mewn sefyllfa dda i symud y rhaglen hon yn ei blaen, ar ôl canolbwyntio ei ymdrechion ac adnoddau yn ddiweddar ar fuddsoddiadau sy'n ategu'r maes astudio hwn: ein rhaglen Cymunedau Cysylltiedig (2010-2019) flaenorol,[5] a'r rhaglen Lle[6] a'r rhaglen Cymunedau Creadigol[7] sy'n mynd rhagddynt. Yn ogystal, Cyfiawnder Rhwng Cenedlaethau a Thrafodaeth Ddinesig yw ein syniadaeth ar gyfer cydlyniant cymdeithasol a gwydnwch. Rydym am bwysleisio'r ddau angen cymdeithasol pwysig hyn, gan ddefnyddio dulliau ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau i herio canfyddiadau presennol ac archwilio posibiliadau cyffrous ac arloesol yn y maes ymchwil hwn.

Mae'r AHRC wedi bod yn ymgynghori'n ddiwyd â rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio yn y maes ymchwil hwn, ac wedi cynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys dau weithdy, ac mae'n bleser gennym gyflwyno canfyddiadau'r trafodaethau hyn isod. Rydym yn parhau ar y daith hon ac yn llawn cyffro ynglŷn â'r effaith y bydd y cyfle hwn yn ei gynnig i gymunedau yn y DU.

1 Adroddiad Ymchwiliad Dinasoedd Diwylliannol (2019), t.12-13; Adroddiad Adfer Dinasoedd Diwylliannol (2020), t.6-7; Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA), Cornerstones of Culture: Adroddiad Cryno y Comisiwn ar Ddiwylliant a Llywodraeth Leol (2022), t.20-23.

2 Ymchwiliad The Economy 2030, Ending Stagnation: A New Economic Strategy for Britain (2023), t.4.

3 Dinasoedd Allweddol, Culture and Place in Britain (2023), t.51, t.171.

4 LGA, Cornerstones of Culture, t.13.

5 Keri Facer a Bryony Enright, Creating Living Knowledge: The Connected Communities Programme, community-university relationships and the participatory turn in the production of knowledge (2016), t.8.

6 Rebecca Madgin ac Elizabeth Robson, Developing a People-Centred, Place-Led Approach: The Value of the Arts and Humanities (2023), t.26.

7 Adroddiad Archwiliad Dwfn Cymunedau Creadigol AHRC, Gan Bawb, i Bawb: Pŵer Partneriaeth (2023), t.5.



# Gweithdai 2024 a Negeseuon Allweddol

Ym mis Mawrth a mis Ebrill, cynhaliodd tîm portffolio Dinasoedd yr AHRC ddau weithdy a chyfres o drafodaethau 1-1 gydag unigolion a ddaeth ag ystod eang o arbenigedd a phrofiad i helpu i gwmpasu, cyd-ddylunio ac adeiladu rhaglen LUCIA ymhellach.  Gweler Atodiad A am weithgareddau paratoi gweithdai.

**Nodau'r gweithdy oedd:**

- Archwilio'r dirwedd ryng-gysylltiedig ar fynediad diwylliannol, gan wrando ar ein cymuned ynglŷn â'r heriau a'r cyfleoedd allweddol yn y maes ymchwil rhyngddisgyblaethol hwn.
- Datblygu gwerthoedd cyffredin a phileri thematig y gall rhaglen LUCIA ddatblygu o'u cwmpas.
- Meithrin ymwybyddiaeth gyfunol o'r mathau o bartneriaethau cynaliadwy a theg a fydd yn cael eu creu a/neu eu hymestyn drwy'r rhaglen a thu hwnt.

Galluogodd y gweithdai i leisiau amrywiol ddod ynghyd a thrafod blaenoriaethau thematig yn y maes ymchwil hwn, gyda phob gweithdy/trafodaeth yn adeiladu ar allbynnau'r trafodaethau blaenorol. Yn y gweithdy cyntaf bu ymarferwyr sydd â gwybodaeth gyfoethog a helaeth o weithio ar ymgysylltu diwylliannol â chymunedau yn ystyried yr hyn sydd ei angen yn fwyaf dybryd ar gymunedau yn y maes ymchwil hwn. Archwiliwyd ac ymhelaethwyd ar flaenoriaethau thematig, ac fe wnaeth ail weithdy wahodd academyddion a oedd yn gweithio yn y meysydd ymchwil hyn i adeiladu ar y syniadaeth hon wedi'i ysgogi gan leisiau cymunedol, i ffurfio pileri ymchwil thematig. Cynhaliwyd y trafodaethau 1-1 olaf gyda chynrychiolwyr sy'n meddu ar arbenigedd llunio polisi lleol, rhanbarthol a'r DU, i gyfrannu at feysydd thematig ymchwil, a herio/mireinio'r rhain er mwyn sicrhau y bydd yr ymchwil arfaethedig yn effeithiol o ran newid y dirwedd ddiwylliannol a pholisi yn y maes hwn. Trwy gydol y sgyrsiau cysylltiedig hyn, cafodd y tîm portffolio Dinasoedd ei ysbrydoli gan frwdfrydedd, a'i herio gan syniadau newydd, ein cymuned traws-sector.

**Daeth nifer o flaenoriaethau thematig a gweithredol allweddol ar gyfer rhaglen LUCIA i'r amlwg o'r trafodaethau hyn, gan gynnwys:**

## Thematig

- **Mae angen diffinio iaith "diwylliant" mor eang â phosibl** – Mae diwylliant ym mhobman. Mae'n gynyddol yn cael ei hunan-arwain a'i hunan-drefnu. Mae ein diffiniadau o ddiwylliant yn y bôn yn ymwneud â'n hunaniaethau unigol a chyfunol, a'r ystyron a gysylltwn â byw gyda'n gilydd mewn cymuned. O fewn ac ymhlith ein cymunedau mae ystyron amrywiol yn gysylltiedig â beth yw diwylliant ond gall y derminoleg ei hun hefyd wreiddio rhaniadau ac allgáu. Mae angen dull a arweinir gan y gymuned sy'n cydnabod cymhlethdod profiadau gwahanol o anghydraddoldeb er mwyn sicrhau bod pob elfen o arfer diwylliannol yn cael ei chydnabod, ei gwerthfawrogi, a'i bod yn cael yr un flaenoriaeth. **Mae gwerth aruthrol mewn diffinio diwylliant fel mandyllog a lluosogaethol, ac mae angen troi at y gwerth i'r unigolyn/y cyd yn hytrach na thybio neu briodoli pwysigrwydd diwylliannol.**

- **Chwalu'r rhwystrau'n ymwneud â lleoedd a mannau diwylliannol** – Mae'r mannau yr ydym yn canfod fod diwylliant yn digwydd ynddynt yn newid yn gyflym ac yn gyson. Mae mynediad anghyfartal at y sector Orielau, Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd (GLAM) yn her sylweddol, gyda chost, mynediad i'r anabl, allgáu o ran cenedlaethau a demograffeg (gan arwain at deimladau "Dydw i ddim yn perthyn yn y lle hwn") i gyd yn cael eu hamlygu fel rhwystrau mawr i ymgysylltiad a chynhwysiant teg sy'n gysylltiedig â'r mannau sefydledig hyn. Mae mannau newydd ar gyfer mynegiant diwylliannol, yn enwedig yn y byd digidol, yn peri heriau hygyrchedd newydd ond hefyd cyfleoedd cyffrous i wahanol genedlaethau gael mynediad at y diwylliant sy'n siarad â hwy. **Mae angen i ni feddwl yn greadigol am ehangu syniadau yn ymwneud â ble mae diwylliant yn digwydd, gan ddefnyddio platfformau digidol ar gyfer grymuso yn hytrach na defnydd, a chydnabod democrateiddio mannau diwylliannol sy'n bodoli eisoes, sefydliadol a rhai sy'n dod i'r amlwg.**

- **Perchnogaeth mannau diwylliannol** – Mewn rhai ardaloedd gwelwyd diwylliant yn dod yn arf, gyda chreu man diwylliannol dadleuol. Rhaid i addysg ddiwylliannol a chyfnewid gwybodaeth, ochr yn ochr â datblygu sgiliau, gael eu hysgogi gan gymunedau a bod ar gyfer cymunedau ac, mewn partneriaeth â sector diwylliannol ehangach, ddarparu cyfleoedd a llwybrau i gymunedau lleol adrodd eu straeon. **Mae cydweithredu a chyd-greu a berchnogir ac a hyrwyddir yn lleol, ac sy'n cefnogi cyfalaf cymdeithasol cymunedau yn hollbwysig er mwyn sicrhau ein bod yn osgoi arfer diwylliannol wedi'i lanweithio ac yn lle hynny yn dysgu gan a gyda chymunedau.**

- **Dyrchafu lleisiau a ymyleiddiwyd ac annog gweithrediad** – Mae diwylliannau a chymunedau amrywiol wedi cael eu gwthio i'r cyrion, a bu diffyg amlwg o ran mynediad i bobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol a lleiafrifoedd ethnig amrywiol. Mewn amgylcheddau trefol yn arbennig, mae perygl o or-ymyleiddiad lle mae mynediad at ddiwylliant wedi'i wahaniaethau'n fawr ar gyfer cymunedau byrhoedlog. Mae hyn yn arwain at bryder nad oes gan bobl reolaeth dros y materion sy'n bwysig iddynt hwy, a'r syniad bod ymgysylltu â chymunedau a ymyleiddiwyd yn y gorffennol wedi bod yn ymarfer ticio blychau. Mae angen i ddeinameg pŵer symud o gwmpas pwy sydd â mynediad at wybodaeth ar lefel leol ac mae angen i sgyrsiau adlewyrchu amrywiaeth cymunedau o fewn cymuned. **Mae angen i ni gydnabod a gwrando ar leisiau grwpiau anghymesur/rhanedig er mwyn atal gor-ymyleiddio cymunedau lleiafrifol a grymuso gweithredu a arweinir gan y gymuned i fod wrth graidd mentrau rhwydwaith.**







- **Cludo diwylliant?** – Mae cysylltiadau trafnidiaeth da yn chwarae rhan ganolog mewn cysylltu cymunedau ac asedau diwylliannol. Gall rhwystrau ynghylch cost trafnidiaeth, mynediad ac agosrwydd wreiddio gwahaniaethau diwylliannol sylweddol rhwng cymunedau mewn cyd-destunau trefol a gwledig. **Mae angen i ni gydbwyso sut yr ydym yn hyrwyddo mynegiant diwylliannol presennol mewn ardaloedd lleol, tra'n galluogi mynediad diwylliannol ehangach i gymunedau, ac archwilio llwybrau amgen i gyrraedd cynulleidfa fwy amrywiol yn y mannau y maent yn byw, yn gweithio ac yn chwarae ynddynt.**

- **Defnyddio mannau diwylliannol amlddefnydd** – Mae lleoedd ar gyfer 'dod ynghyd' megis llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol yn fwyfwy hollbwysig yng nghyd-destun cau mannau cyhoeddus yn dilyn y pandemig a thoriadau sydd wedi'u dogfennu'n dda i gyllid y celfyddydau a diwylliant ar lefel leol a sefydliadol. Mae'r argyfwng costau byw wedi arwain at fregusrwydd a chau rhai mannau diwylliannol ar gyfer gwahanol genedlaethau, ac mae unigolion yn gorfod blaenoriaethu eu cyllid cyfyngedig ar gyfer biliau bwyd/llety/cyfleustodau. Mae mannau cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli yn hanfodol ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu diwylliannol pellach ar draws cymunedau. Cafodd y pandemig effaith negyddol sylweddol ar fynediad at fannau cymunedol. **Mae angen rhyngweithio traws-sector ystyrlon arnom gyda llunwyr polisi, dylunwyr amgylchedd adeiledig, a phenseiri gan ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau.**

- **Cyfnewid rhwng cenedlaethau** – Gellir defnyddio asedau diwylliannol i frwydro yn erbyn enciliad cenedlaethau iau, sy'n teimlo nad oes ganddynt ymreolaeth ddiwylliannol yn ein cymunedau trefol a gwledig. Mae hyn yn cynnwys diogelu treftadaeth drefol a gwledig a seilwaith sy'n pontio'r cenedlaethau, gyda chwestiynau ynglŷn â sut y gallwn ddiogelu gwasanaethau y tu allan i warchodaeth statudol er mwyn darparu etifeddiaeth deg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. **Er mwyn sicrhau persbectif cytbwys, rhaid i ni ddehongli'r hanes perthnasol yn deg, gan gydnabod ei gymhlethdodau a'i safbwyntiau niferus. Ar yr un pryd, dylem groesawu syniadau arloesol a chynhwysol i lunio dyfodol cynaliadwy sydd o fudd i bawb. Mae trafodaeth rhwng cenedlaethau ar themâu megis yr argyfwng hinsawdd ac etifeddiaeth ddiwylliannol yn hollbwysig i wella lles cymunedol a dylem felly annog gweithredu pellach yn y maes ymchwil hwn.**

- **Twristiaeth a mannau gwyrdd cymunedol** – Gall twristiaeth fod yn elfen allweddol o gydlyniant cymunedol a gall ddatgloi potensial lleol ar gyfer twf economaidd. **Mae angen cydnabod y berthynas rhwng twristiaeth a chymunedau diwylliannol ar y cyd â chydnabod pwysigrwydd mannau gwyrdd cyhoeddus fel lleoliadau ar gyfer profi diwylliant, ac ochr yn ochr â'i gyfraniad at swyddi a'r economi leol.**



## Gweithredol

- **Adeiladu/ailadeiladu cyfnewid diwylliannol iach gyda chymunedau** – Rhaid i rymuso cymunedau gynnwys gwerthfawrogi amser a chreadigedd pobl. Mae angen i amserlenni rhwydweithiau gynnwys amser i wrando ac archwilio cylch gwaith penagored. **Mae angen cydnabyddiaeth i bawb wrth y bwrdd, gan wreiddio arbenigwyr trwy brofiad ac aelodau o'r gymuned fel ymchwilwyr gwirioneddol deg sy'n gweithio mewn ffyrdd a all fod yn wahanol i ddisgwyliadau'r gymuned ymchwil dan sylw.**

- **Cydweithio ar bolisi i gyflawni newid ystyrlon** – Mae blaenoriaethau diwylliannol cymunedol yn aml yn hynod-leol o ran eu cwmpas ond yn fregus i gylchoedd gwleidyddol a newidiadau ffocws ar lefel llywodraeth leol a rhanbarthol. Mae hyn wedi'i waethygu yng nghyd-destun pwysau ehangach a thoriadau cyllidebol ar gyfer awdurdodau lleol a rhanbarthol ledled y DU. Mae cysylltiadau i gynllunio polisi lleol a rhanbarthol, o ran datblygu lleol a chynlluniau lle ar gam cynnar, eisoes yn ffordd bwysig o wrthweithio'r bregusrwydd hwn, gan wreiddio ymchwil trwy gyd-gynhyrchu â chymunedau a sicrhau bod diwylliant yn rhan o'r sgwrs hirdymor ar lefel sylfaenol a llawr gwlad. Mae datganoli wedi galluogi lleoleiddio, a chynhyrchiant i gymunedau, ac mae hefyd wedi creu cyfleoedd ar gyfer cyfnewid diwylliannol cymunedol sy'n hanfodol i frwydro yn erbyn 'cryfder sefydliadol' sy'n gwanhau. Mae mwy yn bosibl felly o ran cydgysylltu traws-sector rhwng grwpiau cymunedol, ymchwilwyr a llunwyr polisi. **Argymhellir mecanweithiau i gyflymu cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio a mynediad tecach er mwyn annog partneriaethau dinesig sydd wirioneddol ar lawr gwlad ac sy'n gallu nodi'n fanwl anghenion lleol ar draws crynodrefi trefol.**

- **Mae angen i gyllido fod yn rhywbeth a all dyfu ac sy'n gynaliadwy** – Er mwyn i ganlyniadau fod yn effeithiol, mae angen i rwydweithiau gael y cwmpas i ganolbwyntio eu hymchwil ar uchelgeisiau hirdymor. **Mae angen i gynlluniau cyllido gynnwys strategaethau ymadael hyfyw ac sy'n gallu aildyfu ar gyfer partneriaid rhwydwaith er mwyn sicrhau y gellir cynnal perthnasoedd effeithiol a chynaliadwy a'u hymestyn o bosibl yn y dyfodol.**



## Beth nesaf?

Mae'r AHRC wedi ymrwymo cyllid i gefnogi hyd at bum rhwydwaith peilot traws-sector a arweinir yn lleol (ymarferwyr cymunedol; ymchwilwyr academaidd; a rhanddeiliaid polisi lleol a rhanbarthol) am 12 mis, gyda phob rhwydwaith yn cael ei ariannu hyd at £100,000 (fel cost economaidd lawn). Bydd y cyfle ariannu yn mynd yn fyw ym mis Medi 2024 a bydd yr AHRC yn cynnal gweminar ym mis Hydref i roi sylw i unrhyw ymholiadau'n ymwneud ag ymgeisio a allai ddod i'r amlwg. Bydd y cyfle yn cau ym mis Ebrill 2025 a rhagwelir, yn dilyn panel asesu – a fydd yn cynnwys aelodau panel sydd ag arbenigedd yn ôl profiad ac academaidd – y bydd y prosiectau peilot llwyddiannus yn mynd yn fyw ym mis Ebrill 2026. Bydd y cynlluniau peilot hyn yn cynrychioli set amrywiol o syniadau, dulliau seiliedig ar le a phartneriaethau, i chwalu rhwystrau at fynediad, a bod yn ysgogydd pwerus i dwf cynhwysol ledled y DU.

# Atodiad A

## Cwmpasu cyn-gweithdy LUCIA

Mae tîm portffolio Dinasoedd AHRC wedi bod yn adeiladu sylfeini rhaglen LUCIA yn ofalus ers dechrau 2023. Fe'i lluniwyd gyda chydnabyddiaeth ymwybodol o'r dirwedd gyllido bresennol a'r gwersi a ddysgwyd o gyfleoedd ariannu cyffrous, yn y gorffennol, y presennol ac ymhellach i ffwrdd. Fel yr amlygodd Cyngor Celfyddydau Lloegr yn ei adolygiad o'i fenter Cultural Compacts, mae derbynwyr buddsoddiadau Compacts 'yn ymgysylltu ag ystod ehangach o bartneriaid ac yn datblygu rhaglenni uchelgeisiol,' ond 'mae llawer o gynnydd eto i'w wneud gyda'r heriau deuol, sef amrywiaeth ac ymgysylltu traws-sector'.[8] Bydd rhaglen LUCIA felly yn darparu mwy o gyllid, gyda thegwch a chynaliadwyedd yn ganolog iddi, gan gynnig blwyddyn i rwydweithiau feithrin partneriaethau cadarn a chreu perthnasoedd effeithiol, parhaol gyda phwyslais ar 'strategaethau ymadael' cyfrifol.

Bydd rhaglen LUCIA yn ei gwneud hi'n ofynnol i rwydweithiau ymgysylltu â chymunedau lleol mewn ffyrdd beiddgar ac uchelgeisiol, gan annog dulliau hynod-leol ac ar lawr gwlad ar gyfer materion mynediad at ddiwylliant. Yn hyn o beth, rydym wedi croesawu canfyddiadau adroddiad Culture and Place in Britain Dinasoedd Allweddol, a ganfu fod 'cynlluniau adfywio a arweinir gan ddiwylliant yn cael eu creu'n well yn y sector diwylliant lleol…dylai cynlluniau ystyried yn ofalus y canlyniadau tebygol mewn perthynas ag anghenion ac effeithiau cymunedol.[9]

Mae hwn yn ddull sydd hefyd wedi'i gydnabod mewn cyd-destun byd-eang, fel y gwelwyd yn yr adroddiad ar y cyd diweddar gan Fforwm Diwylliannau Dinasoedd y Byd a Choleg y Brenin Llundain a bwysleisiodd y troi i'r 'lleol' o ran arfer diwylliannol ac ymatebion polisi i'r pandemig. Mae'r newid hwn wedi arwain at fwy o amrywiaeth o bartneriaethau diwylliannol arloesol, ond mae angen cysylltiadau cryfach â chymunedau er mwyn sicrhau bod cymunedau teg, cynhwysol a gwydn yn tyfu.[10]

Cyn y gweithdai a drefnwyd, cynhaliodd yr AHRC sawl trafodaeth gydag ystod o randdeiliaid allweddol i fesur archwaeth, ac i fireinio a newid meysydd trafod arfaethedig y gweithdai a'r mecanweithiau ariannu rhaglenni, cyn mynd â'r rhain i'r gweithdai mwy. Yn bennaf, cyfarfu'r tîm â'r Athro Rebecca Madgin a'r Athro Katy Shaw, a chydweithwyr ar draws yr AHRC i fapio a yw LUCIA yn ffitio o fewn mentrau sy'n mynd rhagddynt yn y maes ymchwil Lle/Cymunedau Creadigol/Dinasoedd, er mwyn sicrhau cyfatebiaeth barhaus â rhaglenni sy'n mynd rhagddynt. Cyfarfu tîm portffolio Dinasoedd hefyd â detholiad o randdeiliaid allanol allweddol gan gynnwys: cydweithwyr yn Cyngor Celfyddydau Lloegr; y tîm yn y Ganolfan Gwerth Diwylliannol; Kasper de Graaf – cyfarwyddwr rhaglen Dinasoedd Allweddol APPG; cydweithwyr yn Swyddfa'r Prif Gynghorydd Gwyddonol yn DLUHC; a'r Maer Marvin Rees yn rhinwedd ei swydd fel Maer Bryste a chyn-gadeirydd Core Cities UK. Bu'r trafodaethau rhagarweiniol hyn yn hollbwysig mewn llunio llwyddiant y gweithdai, ac o ran rhoi'r offer a'r iaith i'r tîm allu ennyn diddordeb cynrychiolwyr y gweithdai yn hyderus mewn trafodaeth.

8 Cyngor Celfyddydau Lloegr, Review of the Cultural Compacts Initiative (2020), t13.

9 Dinasoedd Allweddol, Culture and Place in Britain, t.33.

10 Adroddiad ar y Cyd Fforwm Diwylliant Coleg y Brenin Llundain a Dinasoedd y Byd, Creative recovery? The role of cultural policy in shaping post-COVID urban futures (2023), t.9, t.31.

Arts and Humanities Research Council